# Deddf Addysg (Cymru) 2014

**2014 dccc 5**

## RHAN 2

Y GWEITHLU ADDYSG

*Cyngor y Gweithlu Addysg*

### 2 Cyngor y Gweithlu Addysg

(1) Mae'r corff corfforaethol a sefydlwyd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30) a elwir Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru—

(a) i barhau i fodoli, ond

(b) i newid ei enw i (ac fe'i gelwir o hyn ymlaen yn) "Cyngor y Gweithlu Addysg" (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Cyngor").

(2) Mae Atodlen 1 (sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a phwerau'r Cyngor) yn cael effaith.

### 3 Nodau'r Cyngor

Prif nodau'r Cyngor yw—

(a) cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru, a

(b) cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phersonau sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru.

### 4 Swyddogaethau'r Cyngor

(1) Prif swyddogaethau'r Cyngor yw—

(a) darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r personau y mae'n eu rheoleiddio ac addysgu a dysgu yn unol ag adran 7;

(b) ymgymryd â gweithgareddau i hybu gyrfaoedd mewn proffesiynau cofrestradwy yn unol ag adran 8;

(c) sefydlu a chynnal cofrestr yn unol ag adran 9;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(d) sicrhau bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefydlu personau yn unol ag adran 17 a gwrando apelau mewn perthynas â phenderfyniadau sefydlu yn unol ag adran 19;

(e) adolygu a diwygio'r cod sy'n pennu safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar gyfer personau cofrestredig yn unol ag adran 24;

(f) ymchwilio i ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol a chymryd camau priodol mewn cysylltiad â phersonau cofrestredig yn unol ag adran 26;

(g) cadw unrhyw wybodaeth ynghylch personau a bennir yn unol ag adran 33 a darparu gwybodaeth i unrhyw gyrff a bennir yn unol ag adran 35.

(2) Mae gan y Cyngor hefyd y swyddogaethau ychwanegol sydd wedi eu rhoi iddo yn rhinwedd—

(a) y Ddeddf hon;

(b) gorchymyn o dan adran 5;

(c) unrhyw ddeddfiad arall.

(3) Mae'r swyddogaethau sydd wedi eu rhoi i'r Cyngor gan neu o dan y Rhan hon yn arferadwy ganddo o ran Cymru yn unig.

## 5 Y pŵer i ychwanegu swyddogaethau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn roi neu osod ar y Cyngor unrhyw swyddogaethau ychwanegol sy'n briodol yn eu barn hwy.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

## 6 Cyfarwyddiadau

(1) Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd (cyffredinol neu benodol) a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaniateir i gyfarwyddyd gael ei roi mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) cais penodol i gofrestru o dan adran 9;

(b) apêl sy'n ymwneud â chais o'r fath;

(c) achos disgyblu penodol o dan adran 26.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon mewn unrhyw ddull sy'n briodol yn eu barn hwy.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd (ac mae is-adran (3) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfen sy'n amrywio neu'n dirymu cyfarwyddyd fel y mae'n gymwys i gyfarwyddyd).